

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A  
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR  
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE  
COLWYN, NOS FAWRTH, 23<sup>AIN</sup> CHWEFROR 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy  
Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)  
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R.  
Foreman, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S.  
Williams, C. Wood.

**SWYDDOG(ION):** Mrs C J Earley, Clerc y Dref  
B. Armstrong-Jones a C. Shilton - Myfyrwyr Ymgynghorol

**348/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Estynnodd y Cadeirydd croeso i bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd  
ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs L. Griffiths.

**349/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol  
a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd  
dim.

**350/15 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar  
2<sup>il</sup> Chwefror 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

**351/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 264/15(a) - Promenâd Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, ymateb Vic Turner, Cyngor Bwrdeistref  
Sirol Conwy (CBSC), i gais i osod cyfyngiadau parcio ychwanegol, dros  
dro, ar ochr ddeheuol y ffordd sy'n arwain o Gaffi Fortes i Ros Fynach yn  
Llandrillo yn Rhos. Byddai hyn yn gwella diogelwch i gerddwyr ac i  
feicwyr hyd nes bydd arian ar gael i gynnal rhaglen ehangach o  
welliannau. Fe nodwyd bod Mr Turner o'r farn bod yna ddigon o  
gyfyngiadau ar hyn o bryd, ond cyfeiriodd yr aelodau at fwy o 'achosion  
agos' a welwyd heddiw.

*Penderfynwyd gofyn i Mr Turner ddod i gyfarfod ar y safle gyda  
Chynghorydd Wood naill ai 9am neu 3.30pm ar ddiwrnod o'r wythnos  
fel iddo fod yn dyst i faterion diogelwch ar y rhan yma o'r ffordd.*

*Fe benderfynwyd ymhellach i adael i aelodau Ward Rhos wybod am  
ddyddiad / amser yr ymweliad.*

**352/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

- a. **Adolygiad o Strategaeth Ased Parcio Ceir** - Cyflwynwyd copi o adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a Chabinet CBSC ynghyd a chysylltiad at recordiad we-gamera'r ddau gyfarfod. Fe nodwyd bod y Cabinet wedi cyfeirio'r mater yn ôl i Gyd-gyfarfod Craffu Cymunedau a Chwsmeriaid i'w ystyried ymhellach oherwydd y nifer o sylwadau a dderbyniwyd. Bydd y dechnoleg awtomatig o adnabod rhif cerbydau yn cael ei weithredu.

Amlinellodd yr aelodau eu pryderon am rai o'r cynigion yn y strategaeth parthed talu am barcio ceir yn ardal Bae Colwyn.

*Penderfynwyd argymhell bod llythyr yn cael ei anfon at Brif Weithredwr CBSC, a chynnwys y cynghorwyr sir lleol, i ddatgan bod gan y Cyngor hwn pryderon cryf am rai o'r argymhellion yn y Strategaeth ar Barcio Ceir a fydd yn effeithio ar ardal Bae Colwyn, yn arbennig am:*

- i *Y bwriad i godi tâl am barcio ar faes parcio Berthes Road Hen Golwyn, am ei fod yn cael ei ddefnyddio fel man disgyn a chasglu plant o'r ysgol ac i gefnogi siopau a gwasanaethau lleol eraill, megis y Swyddfa Bost. Bydd codi tâl felly yn cael effaith llym a niweidiol ar y strydoedd preswyl lleol a busnesau bychain gan ddadwneud yr holl waith da a wnaed trwy raglen Llwybrau Diogel i Ysgol.*
- ii *Cynlluniau i godi tâl ar hyd y promenâd (rhannau 1a i 5 ar y plan sydd gyda hwn). Mae gan yr Aelodau pryderon sylweddol am effaith negyddol bydd hyn yn cael ar iechyd a llesiant y boblogaeth leol, llawer ohonynt yn ymweld â'r promenâd a'r traeth yn rheolaidd am awyr iach ac ymarfer corff, yn cynnwys y rhai sy'n cerdded eu cŵn yn ddyddiol. Nid yw'r Cyngor yn cytuno bydd parcio di-dâl cyn 10am ac ar ôl 4pm yn rhan 5 yn unig yn ddigonol. Gallai crynhoi gymaint o gŵn mewn man mor fychan ar lan y môr wneud y rhan yma o'r traeth yn anaddas i'w ddefnyddio gan eraill, yn cynnwys teuluoedd ifanc, pysgotwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.*
- iii *Mae'r aelodau yn poeni'n gryf hefyd am yr effaith ar y strydoedd preswyl cyfagos caiff codi tâl am barcio ar hyd yr holl bromenâd, yn arbennig yr adran o Marine Drive tua'r gorllewin. Dylid atgoffa'r Cyngor Sir bod parcio ar y promenâd yng Nghraig y Don, Llandudno yn parhau i fod yn ddi-dâl, er y cyfleusterau sydd yna megis y caffï a'r pwll ymdrochi.*

*Oherwydd y pryderon hyn, mae'r Cyngor Tref yn gofyn i ddewisiadau eraill cael eu harchwilio. Gall hyn cynnwys parcio di-dâl ar adegau penodol (e.e. cyn 10am ac ar ôl 4pm ar hyd yr holl Bromenâd) a pharcio di-dâl tymor byr, efallai i drigolion lleol (Conwy) yn unig mewn rhai neu ym mhob maes parcio'r Sir sy'n gyfleustra i wasanaethau lleol megis ysgolion, Swyddfeydd Post a.y.b. er enghraifft hyd at 30 munud yn ddi-dâl ar unrhyw adeg (i gael ei monitro gyda'r dechnoleg o adnabod rhif cofrestru'r cerbyd).*

- b. **Copi o Drosoglwyddiad Tir 1901** - Cais i'r ddogfen (a ddarganfuwyd yng nghypryddau storio yn yr ystafell llungopio gan Swyddog Amgueddfeydd y Sir), sydd yn gytundeb parthed trosglwyddo tir sy'n rhan o'r promenâd a'r briffordd o'r cwmni rheilffordd i Gyngor Dinesig Bae Colwyn a

Cholwyn ym 1901, cael ei gadw yn Archif y Sir. Dywedodd y Clerc mai CBSC bydd yr Awdurdod Olynol ac nid y Cyngor Tref.

*Penderfynwyd cytuno i ddychwel y ddogfen i GBSC i'w gadw yn yr archif.*

- c. **Digwyddiad Rhandeiliaid ar Ddigonedd Chwarae Conwy:**  
Gwahoddiad i fynychu'r digwyddiad. Cafwyd trafodaeth fer am y digonedd o chwarae a dywedodd y Myfyrwyr Ymgynghorol wrth yr aelodau, mai yn eu barn hwy, roedd plant iau yn teimlo'n ddiogelach mewn mannau chwarae wedi'u hamgylchynu gan ffens a gydag offer addas, yn hytrach na mewn mannau agored.

*Penderfynwyd bod y Cynghorydd Mrs G. Baker i fynychu'r digwyddiad ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.*

- ch **BID Colwyn** - Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2<sup>il</sup> Chwefror, yn cadarnhau bod y cynrychiolwyr wedi penodi Bwrdd Strategol y Bwrdd BID a'r Bwrdd Prosiect ac fe gadarnhawyd mai cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bwrdd Prosiect bydd Clerc y Dref.
- d. **Ymgynghoriad ar y Rhestr Ddilysiant Leol Drafft (RhDdLI)** - er gwybodaeth.

*Penderfynwyd derbyn y ddogfen ymgynghori a'i nodi.*

**353/15 Llywodraeth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, cynigion parthed y Datganiad o Gyfranogiad Cyhoeddus ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Fe nodwyd mai'r cynnig yw cael tri chyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y datblygiad o'r FfDC, ac mai hwn oedd y cyntaf.

*Penderfynwyd derbyn y ddogfen a'i nodi.*

**354/15 Cymorth Cynllunio Cymru (CCC):**

Cyflwynodd y Clerc wybodaeth parthed digwyddiadau hyfforddi gan Gymorth Cynllunio Cymru. Fe nodwyd bod rhai o aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi cwblhau eu hyfforddiant CCC yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

*Penderfynwyd annog unrhyw aelod na chafodd hyfforddiant yn y gorffennol gan CCC i fynd.*

*Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i ddarganfod y lleoliadau ar gyfer sesiynau Cyflwyniad Cyffredinol i Gynllunio Gogledd Cymru ac anfon y rhain ymlaen at yr aelodau.*

**355/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 10<sup>fed</sup> Chwefror 2016
- b Adroddiad byr gan y Cynghorydd Glenys Baker ar y Fforwm Effaith Iechyd a gynhaliwyd yn ddiweddar parthed Swyddfeydd newydd CBSC (darllenwyd i'r cyfarfod gan y Clerc).

**356/15 Cynllunio:**

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

Datganodd y Clerc ei chysylltiad â chais O/42328 oedd yn effeithio ar rhai o'i chymdogion, ac felly gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais hwn.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio.***

**357/15 Ceisiadau am Drwyddedau:**

Fe nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am drwyddedau wedi cael eu cofrestru ar gyfer ardal Bae Colwyn yn yr wythnosau diweddar.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.30 pm

..... Cadeirydd